# Hybu ymyrryd yn gynnar er budd plant, pobl ifanc a theuluoedd

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn amlinellu'r gofynion ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifanc, teuluoedd ac eraill i nodi ac asesu'r angen i ymyrryd yn gynnar i gefnogi llesiant a datblygiad plant a phobl ifanc. Gall anghenion gynnwys nam ar y synhwyrau, cyflyrau iechyd fel anabledd neu salwch cronig, cefnogaeth gymdeithasol, iaith a chyfathrebu, oedi mewn datblygiad, neu amgylchiadau eraill sy'n galw am ymyrraeth gynnar.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau teuluoedd ac eraill o ran cefnogi llesiant a datblygiad plant neu bobl ifanc
2. meithrin perthynas â phlant neu bobl ifanc a theuluoedd
3. gweithio mewn partneriaeth ag eraill i greu amgylcheddau cefnogol i blant neu bobl ifanc a theuluoedd
4. defnyddio ffyrdd o weithio gwahanol i gyfathrebu mewn ffyrdd sy'n cefnogi plant neu bobl ifanc a theuluoedd i rannu unrhyw bryderon
5. trin plant neu bobl ifanc a theuluoedd â pharch, gan werthfawrogi eu diwylliant a'u cefndir
6. defnyddio arsylwadau a ffynonellau eraill o wybodaeth i nodi a chadarnhau pryderon am blant neu bobl ifanc
7. gweithio ag eraill i gyfeirio plant neu bobl ifanc a theuluoedd sydd angen cymorth at y gwasanaethau priodol
8. gweithredu er lles plant neu bobl ifanc a theuluoedd
9. gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd i asesu a deall anghenion plant neu bobl ifanc
10. annog teuluoedd i siarad am gryfderau a heriau plant neu bobl ifanc
11. gweithio â theuluoedd i ganfod pa gymorth sydd ei angen arnynt
12. trafod yr opsiynau a'r ymyriadau a allai gefnogi llesiant a datblygiad plant neu bobl ifanc
13. rhoi gwybodaeth i deuluoedd am adnoddau a gwasanaethau a all ddarparu cymorth
14. gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gefnogi teuluoedd i drafod a chael gafael ar adnoddau a gwasanaethau
15. gweithio â theuluoedd i benderfynu pa wybodaeth y dylid ei rhannu ag eraill
16. gweithio mewn partneriaeth â phlant neu bobl ifanc, teuluoedd ac eraill i adolygu cynnydd a nodi a mynd i'r afael ag unrhyw newidiadau
17. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer ymyrryd yn gynnar er budd plant neu bobl ifanc a theuluoedd
18. meddyliwch ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i hybu ymyrryd yn gynnar er budd plant neu bobl ifanc a theuluoedd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y newidiadau y gallai plant a phobl ifanc fynd drwyddynt a sut y gall y rhain effeithio ar eu llesiant a'u datblygiad
2. sut y gall ffactorau cymdeithasol, corfforol ac economaidd effeithio ar ddatblygiad plant a phobl ifanc
3. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar lesiant a datblygiad plant a phobl ifanc
4. sut mae creu amgylcheddau cefnogol sy'n annog teuluoedd i rannu gwybodaeth am anghenion a phrofiadau plant a phobl ifanc
5. sut mae defnyddio gwahanol ffyrdd o gyfathrebu i gefnogi teuluoedd i drafod llesiant a datblygiad plant a phobl ifanc
6. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi plant a phobl ifanc a theuluoedd drwy ymyrryd yn gynnar
7. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol wrth ymyrryd yn gynnar
8. rôl ymwybyddiaeth ddiwylliannol, sensitifrwydd a gwerthfawrogi cefndiroedd a phrofiadau amrywiol wrth weithio â theuluoedd
9. pwysigrwydd deall sut mae teuluoedd yn teimlo am ofyn am ymyrraeth neu gymorth arbenigol i blant a phobl ifanc a sut i ymateb mewn ffordd sensitif
10. sut mae arsylwi ar blant a phobl ifanc yn effeithiol a defnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth i nodi heriau posibl
11. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gefnogi ymyrryd yn gynnar ar ran plant a phobl ifanc
12. pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth a chynnwys teuluoedd wrth gefnogi ymyrryd yn gynnar ar ran plant a phobl ifanc
13. sut mae rhoi gwybodaeth berthnasol i deuluoedd am adnoddau a gwasanaethau, a rhoi cymorth i gael gafael ar wasanaethau
14. pwysigrwydd nodi rolau a chyfrifoldebau teuluoedd ac eraill o ran cefnogi llesiant a datblygiad plant a phobl ifanc
15. sut mae nodi heriau a allai atal teuluoedd rhag cael gafael ar gymorth a strategaethau i'w goresgyn
16. pwysigrwydd adolygu anghenion plant a phobl ifanc a theuluoedd a sut i wneud newidiadau'n seiliedig ar adborth a chynnydd
17. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i hybu ymyrryd yn gynnar er budd plant a phobl ifanc a theuluoedd

18. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i hybu ymyrryd yn gynnar er budd plant a phobl ifanc a theuluoedd
19. y cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer hybu ymyrryd yn gynnar er budd plant a phobl ifanc a theuluoedd
20. theorïau sy’n berthnasol i ymyrryd yn gynnar er budd plant a phobl ifanc a theuluoedd
21. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer hybu ymyrryd yn gynnar er budd plant a phobl ifanc a theuluoedd
22. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth hybu ymyrryd yn gynnar er budd plant a phobl ifanc a theuluoedd
23. sut y gall eich profiadau personol a’ch rhagfarn ddiarwybod effeithio wrth hybu ymyrryd yn gynnar er budd plant a phobl ifanc a theuluoedd, a sut i fynd i'r afael â hyn
24. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu mewn cymorth ymyrryd yn gynnar i blant a phobl ifanc a theuluoedd

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD365

Hybu ymyrryd yn gynnar er budd plant, pobl ifanc a theuluoedd

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD365 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Ymyrryd, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |